# GRYMUSO CYFLOGWYR YNG NGOGLEDD CYMRU

# PECYN CYMORTH LLWYBR SGILIAU DIGIDOL



Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# Croeso

Mae sgiliau digidol yn hanfodol i sefydliadau lwyddo yn y byd cyflym sy'n cael ei yrru gan dechnoleg heddiw. Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio i helpu cyflogwyr yng Ngogledd Cymru i lywio'r dirwedd ddigidol sy'n esblygu, gan gynnig adnoddau ymarferol, mynediad at ddarparwyr hyfforddiant a llwybrau i adeiladu gweithlu medrus yn yr economi fodern.

Y tu mewn, fe welwch:

- Pam fod sgiliau digidol yn bwysig ac y manteision o fod yn effeithiol ac yn arloesol.
- Esboniad clir o lefelau sgiliau digidol, o'r sylfaenol i'r uwch, a pham fod buddsoddi yn y sgiliau hyn yn hanfodol i'r gweithlu a'r sefydliad.
- Cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau, gan dynnu sylw at opsiynau lleol fel prentisiaethau, microgredydau, cyrsiau rhan-amser, ac ardystiadau sydd ar gael i weithwyr ar gyfer uwchsgilio.
- Canllawiau ar sut i ddechrau uwchsgilio digidol, i ddiogelu eich busnes yn y dyfodol.



Mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu'r offer a'r arweiniad i gychwyn ar daith sgiliau digidol eich gweithlu!



# Mae Sgiliau Digidol yn Bwysig i Gyflogwyr

Mae gweithlu sy'n fedrus yn ddigidol yn hanfodol ar gyfer gwella effeithlonrwydd, aros yn gystadleuol, a gyrru arloesedd. Gall buddsoddi mewn sgiliau digidol helpu busnesau:

**Cynnydd mewn Cynhyrchiant:**
Mae arfogi gweithwyr â sgiliau digidol yn helpu i symleiddio llifoedd gwaith, gwella cydweithredu, ac awtomeiddio tasgau ailadroddus, gan arwain at fwy o effeithlonrwydd ac arbed costau.

**Annog Creadigrwydd ac Arloesedd:**
Mae gweithlu sy'n fedrus yn ddigidol mewn sefyllfa well i gofleidio technolegau newydd, gyrru arloesedd, ac aros ar y blaen i dueddiadau'r diwydiant.

**Busnes mwy Gwydn:**
Gall sefydliadau sydd â thimau â gallu digidol addasu'n gyflymach i unrhyw aflonyddwch, megis newidiadau yng ngalw'r farchnad neu ddatblygiadau mewn technoleg.



# Deall Sgiliau Digidol

Mae sgiliau digidol yn cwmpasu'r ystod o alluoedd sy'n caniatáu i unigolion ddefnyddio offer digidol, technoleg a llwyfannau ar-lein yn effeithiol. Wrth i dechnoleg esblygu, felly hefyd y mae'r angen am sbectrwm eang o gymwyseddau digidol. Mae'r sgiliau hyn wedi'u categoreiddio'n dair prif lefel: sylfaenol, canolradd ac uwch.



## SGILIAU DIGIDOL SYLFAENOL:

Mae sgiliau digidol sylfaenol yn sail i lythrennedd digidol ac maent yn hanfodol ar gyfer tasgau bob dydd yn y gweithlu modern. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys:

- **E-bost:** Cyfansoddi, anfon a rheoli negeseuon e-bost yn effeithiol.
- **Microsoft Office:** Defnyddio rhaglenni fel Word, Excel, a PowerPoint i greu dogfennau, taenlenni a chyflwyniadau.
- **Llywio'r Rhyngrwyd:** Chwilio'r we, pori gwefannau, defnyddio peiriannau chwilio, a deall hanfodion diogelwch y rhyngrwyd.

## SGILIAU DIGIDOL CANOLRADD:

Mae sgiliau digidol canolradd yn fwy arbenigol ac yn hanfodol ar gyfer rolau sy'n cynnwys rheoli neu ddadansoddi data, cydweithio ar draws timau, a chreu cynnwys digidol. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys:

- **Dadansoddi Data:** Defnyddio meddalwedd fel Excel neu offer mwy datblygedig (e.e., Tableau, Power BI) i ddadansoddi data a chynhyrchu mewnwelediadau ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- **Meddalwedd Rheoli Prosiectau:** Hyfedredd mewn offer fel Trello, Asana, neu Microsoft Project i reoli tasgau, amserlenni, a chydweithrediad tîm yn effeithlon, ochr yn ochr ag offer Rheoli Perthynas Cwsmeriaid (CRM) ar gyfer rheoli perthnasoedd a data cwsmeriaid.
- **Offer Dylunio Graffig:** Gwybodaeth am raglenni fel Adobe Photoshop neu Canva i greu cynnwys gweledol ar gyfer marchnata, cyfathrebu a brandio.



## SGILIAU DIGIDOL UWCH:

Mae sgiliau digidol uwch yn hanfodol ar gyfer rolau technegol lefel uchel ac arloesi o fewn diwydiannau. Maent yn cynnwys:

- **Codio:** Y gallu i ysgrifennu a deall ieithoedd rhaglennu fel Python, JavaScript, neu HTML / CSS ar gyfer creu gwefannau, apiau a meddalwedd.
- **Deallusrwydd Artiffisial (AI):** Deall cysyniadau AI megis dysgu peiriannau, prosesu iaith naturiol, a sut y gellir cymhwyso'r technolegau hyn i atebion ymarferol a sefydliadol.
- **Seibrddiogelwch:** Arbenigedd mewn amddiffyn systemau digidol, data a rhwydweithiau rhag bygythiadau Seibr, gan ddefnyddio offer ac arferion i atal toriadau data a sicrhau diogelwch gwybodaeth.
- **Cyfrifiadura Cwmwl:** Gwybodaeth am lwyfannau cwmwl fel Amazon Web Services (AWS), Microsoft Azure, neu Google Cloud i storio, rheoli a dadansoddi data o bell, gan alluogi sefydliadau i raddio'n effeithlon.

## DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL (AI)

Wrth i dechnoleg esblygu, mae AI yn ail-lunio'r gweithle, ac mae'n rhaid i fusnesau addasu i aros yn gystadleuol. Gyda 75% o gwmnïau'n bwriadu integreiddio AI yn y pum mlynedd nesaf, mae buddsoddi yn natblygiad y gweithlu yn hanfodol. Er y bydd AI yn gyrru creu swyddi net, bydd hefyd yn newid rolau swyddi, gan ei gwneud yn ofynnol i weithwyr ddatblygu sgiliau newydd.



## Pam Buddsoddi mewn Sgiliau Digidol?

Mae buddsoddi mewn sgiliau digidol yn hanfodol i aros yn gystadleuol yn economi heddiw, sy'n esblygu'n gyflym. Mae gweithlu sy'n fedrus yn ddigidol yn gyrru arloesedd, yn cynyddu effeithlonrwydd, ac yn gwella cynhyrchiant. Wrth i ddiwydiannau barhau i gofleidio technolegau newydd, dim ond tyfu wnaiff y galw am weithwyr medrus.

*"Nid yw sgiliau digidol bellach yn ddewisol - maent yn hanfodol i fusnesau arloesi, tyfu a pharhau i fod yn gystadleuol. Mae'r Pecyn Cymorth Llwybr Sgiliau Digidol hwn yn adnodd hanfodol i gyflogwyr sy'n dymuno datblygu gweithlu sy'n barod ar gyfer heriau'r dyfodol. Yn M-SParc, rydym yn gweld drosom ein hunain sut mae uwchsgilio digidol yn gyrru llwyddiant busnes, ac rydym yn cefnogi'r fenter hon yn llawn i wella galluoedd digidol Gogledd Cymru."*
**Pryderi Ap Rhisiart, M-SParc - Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd Clwstwr Cyflogwyr Sgiliau Digidol RSP**

## Proffil Gweithlu Sector Creadigol a Digidol

RHYWEDD

| | |
|---|---|
| 39% | 61% |

OEDRAN



| 16 - 24 | 25 - 49 | 50+ |
|---|---|---|
| 8.2% | 56.4% | 35.4% |



## Galw Uchel am Sgiliau Digidol - Cyfle sy'n Tyfu!

Y prif sgiliau digidol y mae galw amdanynt sydd â'r gallu i yrru llwyddiant busnes:

- **Seibrddiogelwch** - Amddiffyn eich busnes rhag bygythiadau digidol.
- **Peirianneg a Dadansoddi Data** - Troi data yn fewnwelediadau gwerthfawr.
- **Peirianneg Cwmwl** - Datrysiadau digidol effeithlon y gellir eu ehangu'n gyflym.
- **Rhaglennu a Chodio** - Pweru trawsnewid digidol.

Offer a thechnolegau a ddefnyddir fwyaf:

- **Llwyfannau Cwmwl:** AWS, Azure - Hybu effeithlonrwydd a chydweithio.
- **Offer Cronfa Ddata a Gwyddor Data:** SQL, Pandas, NumPy - Gwnewch benderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ddata.
- **Datblygu a Sgriptio:** React, HTML / CSS, CI / CD, Git - Cyflymu arloesi!



# Mae Uwchsgilio yn Haws Nag yr Ydych chi'n Meddwl!

Y dulliau dysgu gorau:

**Cyrsiau byr a mentora** – Hyfforddiant hyblyg a hygyrch i weithwyr.

**Prentisiaethau a hyfforddiant a ariennir** – Datblygu sgiliau cost isel, effaith uchel.



**Dyfodol Digidol mwy Amrywiol a Chynhwysol!**

- Potensial mawr i dyfu amrywiaeth mewn rolau digidol
- Gall ymgysylltu cynnar mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion greu gweithlu mwy cynhwysol.
- Mae AI a sgiliau technoleg sy'n dod i'r amlwg yn chwarae rhan fawr yn llwyddiant busnes - nawr yw'r amser i baratoi!

**Gall Cyflogwyr Weithredu Heddiw!**

- Hyrwyddwch brentisiaethau digidol – Cyllid ar gael i adeiladu timau sy'n barod i'r dyfodol.
- Mapiwch hyfforddiant i gyd-fynd ag anghenion y diwydiant – Sicrhewch fod eich gweithlu yn aros ar y blaen.
- Hyrwyddwch amrywiaeth mewn gyrfaoedd digidol – Denu talent o'r radd flaenaf o bob cefndir.

## Llwybrau at Ddatblygu Sgiliau Digidol

Oeddech chi'n gwybod? Gall gweithwyr uwchsgilio ar unrhyw lefel, o Lefel 2 i radd!





| Cwrs | Ysgol | Coleg | Prifysgol | Gweithle |
|---|---|---|---|---|
| Bagloriaeth Cymru | ✓ | | | |
| TGAU | ✓ | | | |
| Prentisiaeth L2 | | ✓ | | ✓ |
| Cymhwyster TG Uwch L2 | | ✓ | | |
| Cymhwyster L2 | | ✓ | | |
| Prentisiaeth L3 | | ✓ | | ✓ |
| Cymhwyster TG Uwch L3 | | ✓ | | |
| Cymhwyster L3 | | ✓ | | |
| Lefel A | ✓ | ✓ | | |
| Prentisiaeth L4 | | ✓ | | ✓ |
| Cymhwyster L4 | | ✓ | | |
| Prentisiaeth Gradd | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gradd Llawn Amser | | | ✓ | |
| Msc | | | ✓ | |
| PhD | | | ✓ | |

# Prentisiaethau

Nid yw prentisiaethau ar gyfer recriwtiaid newydd yn unig, maen nhw'n offeryn pwerus i **uwchsgilio ac ailsgilio** eich gweithwyr presennol. Mae buddsoddi mewn prentisiaethau digidol yn helpu'ch tîm i fod ar y blaen i ddatblygiadau technolegol, gan roi hwb i gynhyrchiant ac arloesedd.

## PRENTISIAETHAU (LEFEL 2 - 3)

| Fframwaith | Lefel | Darparwyr yng Ngogledd Cymru |
|---|---|---|
| Sgiliau Digidol ar gyfer Busnes | Lefelau 2, 3 | Grwp Llandrillo Menai (GLIM)<br>Coleg Cambria<br>ALS Training |
| Datblygwr Meddalwedd | Lefelau 3, 4 | GLLM<br>ALS Training |
| Dadansoddwr Data | Lefel 3, 4 | ALS Training |
| Dadansoddwr Seibrddiogelwch | Lefelau 3, 4 | ALS Training |
| Dylunio Cynnwys Digidol | Lefelau 3, 4 | ALS Training |
| Peirianneg Seilwaith Digidol | Lefelau 3, 4 | Coleg Cambria<br>ALS Training |
| Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr (UCD) | Lefelau 2, 3, 4 | ALS Training |
| Telathrebu Proffesiynol | Lefelau 2, 3, 4 | Cysylltwch â darparwyr i drafod yr angen |



## PRENTISIAETH GRADD (LEFEL 6)

| | |
|---|---|
| **Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol** | |
| BSc (Anrh) mewn Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol | Prifysgol Bangor<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Coleg Cambria |
| BSc (Anrh) Cyfrifiadura | Prifysgol Wrecsam |
| BSc (Anrh) mewn Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol | Y Brifysgol Agored |
| **Gwyddor Data Gymhwysol** | |
| BSc (Anrh) Gwyddor Data Cymhwysol | Prifysgol Bangor<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Coleg Cambria |
| **Seibrddiogelwch Cymhwysol** | |
| BSc (Anrh) Seibrddiogelwch Cymhwysol | Prifysgol Bangor<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Coleg Cambria |
| BSc (Anrh) Seibrddiogelwch | Prifysgol Wrecsam |

I ddarganfod mwy am brentisiaethau ewch i **Portal Sgiliau Gogledd Cymru**

# Cyrsiau rhan-amser

Mae ystod eang o gyrsiau rhan-amser gan gynnwys microgredydau ar gael i helpu i uwchsgilio ac ailsgilio eich gweithwyr. Mae'r cyrsiau hyn yn dod ar wahanol lefelau a gellir eu hariannu'n llawn, eu hariannu'n rhannol, neu eu darparu'n fasnachol, gan ei gwneud hi'n haws buddsoddi mewn datblygu'r gweithlu.

P'un a ydych chi'n edrych i wella sgiliau digidol, arbenigedd technegol, neu alluoedd arweinyddiaeth, mae yna opsiynau dysgu hyblyg sy'n addas i'ch anghenion busnes.





Dyma rai enghreifftiau o gyrsiau sydd ar gael yng Ngogledd Cymru i helpu i uwchsgilio ac ailsgilio eich gweithlu:

- **Seibrddiogelwch** (e.e., canfod bygythiadau, hacio moesegol, rheoli risg)
- **Dadansoddi Data a Data Mawr** (e.e., Excel ar gyfer busnes, SQL, Python ar gyfer gwyddor data)
- **Datblygu Meddalwedd** (e.e., codio yn Python, JavaScript, datblygu apiau)
- **Systemau TG a Rhwydweithio** (e.e., cyfrifiadura cwmwl, cymorth TG, diogelwch rhwydwaith)
- **Marchnata Digidol** (e.e., SEO, rheoli cyfryngau cymdeithasol, creu cynnwys)
- **E-fasnach a TG Busnes** (e.e., datblygu gwefannau, systemau CRM, strategaethau gwerthu ar-lein)
- **Animeiddio ac Amlgyfrwng** (e.e., dylunio graffig, golygu fideo, modelu 3D)
- **Technolegau Iechyd Digidol** (e.e., rheoli data gofal iechyd, AI mewn gofal iechyd)



# Rhaglen Sgiliau Hyblyg

Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn fenter ariannu gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth ariannol i fusnesau ledled Cymru sy'n ceisio uwchsgilio eu gweithlu. Un o'r ffrydiau hyfforddi allweddol yn y rhaglen hon yw sgiliau digidol, sy'n cefnogi busnesau sydd eisiau datblygu arbenigedd mewn meysydd fel seibrddiogelwch, cyfrifiadura cwmwl, dadansoddeg data, deallusrwydd artiffisial, a datblygu meddalwedd. Mae gan gyflogwyr yr hyblygrwydd i ddewis eu darparwr hyfforddiant ardystiedig, cyn belled â bod y cyrsiau wedi'u hachredu neu'n bodloni safon sy'n cael ei chydnabod gan y diwydiant. Gellir darparu hyfforddiant naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb, gan ganiatáu i fusnesau deilwra'r dysgu i anghenion eu gweithwyr.



Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru eich diddordeb, dilynwch y ddolen HON.





# Sut i Ddechrau Arni

1. **Nodwch y Bylchau yn Sgiliau eich Tîm:** Cynhaliwch archwiliad sgiliau i benderfynu ar feysydd lle mae angen hyfforddiant, megis arbenigedd technegol, arweinyddiaeth, neu feysydd sy'n dod i'r amlwg fel deallusrwydd artiffisial a thechnolegau gwyrdd. Defnyddiwch adborth gweithwyr a meincnodau'r diwydiant i lywio eich penderfyniadau.
2. **Cysylltwch â darparwyr hyfforddiant:** Partnerwch â cholegau, prifysgolion, neu ddarparwyr hyfforddiant annibynnol i archwilio atebion pwrpasol ar gyfer anghenion eich sefydliad. Trafodwch gyrsiau wedi'u teilwra, dulliau cyflwyno (e.e., mewnol, ar-lein, neu hybrid), a chyfleoedd cyllido neu gyd-ariannu posibl.

Mae buddsoddi yn yr hyfforddiant cywir yn sicrhau bod eich gweithlu yn aros ar y blaen yn y dirwedd ddigidol sy'n esblygu'n barhaus!





# Cyswllt a Chefnogaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y cyrsiau digidol sydd ar gael, cysylltwch â'r darparwyr hyfforddiant hyn yng Ngogledd Cymru:

Coleg Cambria: 0300 30 30 006 | employers@cambria.ac.uk

Busnes@LlandrilloMenai: 08445 460 460 | busnes@gllm.ac.uk

ALS Training: 029 2267 7020 | info@alstraining.org.uk

Prifysgol Bangor: 01248 351151 | shortcourses@bangor.ac.uk

Prifysgol Wrecsam: 01978 290666 | enterprise@wrexham.ac.uk

Y Brifysgol Agored: 07386 656600 | zoe.doherty@open.ac.uk

Darganfyddwch amrywiaeth o ddarparwyr hyfforddiant a chymorth ar Poral Sgiliau Gogledd Cymru




info@rspnorth.wales

www.partneriaethsgiliaugogledd.cymru

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

NORTH WALES SKILLS portal SGILIAU GOGLEDD CYMRU

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

North Wales Regional Skills Partnership